
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 Rhif 1259 (Cy. 257)

DYFRAMAETHU, CYMRU
PYSGODFEYDD, CYMRU
AMGYLCHEDD MOROL, CYMRU

Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a
Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022

Gwnaed - - - - *30 Tachwedd 2022*
Yn dod i rym - - *1 Rhagfyr 2022*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Pysgodfeydd 2020(1).

Yn unol ag adran 51(4)(c) o'r Ddeddf honno, mae drafft o'r offeryn hwn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.